Llywodraeth Ei Fawrhydi

# Cynllluniwr Addasiadau

Cefnogi Myfyrwyr a Graddedigion i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Medi

# Eich Cynlluniwr Addasiadau

## Cyflwyniad

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd neu ofynion ychwanegol sy'n golygu bod angen addasiadau arnoch, i helpu sicrhau bod eich addasiadau wedi'u dogfennu dylech ystyried cwblhau Cynlluniwr Addasiadau.

Gallai Cynlluniwr Addasiadau fod yn arf defnyddiol i’ch cefnogi i symud ymlaen mewn addysg uwch, dechrau gweithio yn ystod y tymor neu symud i gyflogaeth drwy eich galluogi i gynllunio’ch dyfodol.

Gall y Cynlluniwr Addasiadau eich cefnogi drwy wneud fel a ganlyn:

- Eich galluogi i nodi unrhyw gymorth neu drefniadau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch tra byddwch yn fyfyriwr neu yn y gweithle
- Codi ymwybyddiaeth o gymorth mewn addysg, gan gynnwys y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl
- Cefnogi cais Mynediad i Waith am gymorth ychwanegol

Mae Mynediad i Waith yn grant gan y llywodraeth sydd ar gael i helpu i dalu costau cymorth yn y gweithle.  Gallai cymorth gan Fynediad i Waith gynnwys:

- Cyllid ar gyfer cyfarpar arbenigol i'ch cefnogi i wneud eich swydd
- Cymorth i fynd i'r gwaith ac oddi yno a/neu gymorth pan fyddwch yn y gwaith
- Gweithiwr cymorth neu gymorth hyfforddi swydd

Mae'r Cynlluniwr Addasiadau yn ddogfen gyfrinachol, bersonol sy'n perthyn i chi, ac ni ellir ei rhannu ag eraill heb eich caniatâd. Gall y cynlluniwr wneud y canlynol:

> Eich paratoi ar gyfer cyfweliad trwy ddarparu strwythur i'ch cefnogi i gael sgyrsiau mwy hyderus gyda darpar gyflogwyr am eich gofynion gweithio, addasiadau a chymorth yn y gwaith, a'ch cefnogi i wneud cais am Fynediad i Waith trwy leihau'r angen am asesiad Mynediad i Waith.

Gellir defnyddio’r Cynlluniwr Addasiadau i’ch cefnogi tra byddwch yn fyfyriwr, yn gweithio yn ystod y tymor, yn hunangyflogedig, yn brentis, neu’n gwneud profiad gwaith.

## Sut rydych yn cwblhau eich Cynlluniwr Addasiadau?

Gallwch gwblhau'r Cynlluniwr Addasiadau eich hun, neu ofyn am help i gwblhau'r cynlluniwr oddi wrth un o'r canlynol:

- aelod o'ch teulu
- rhywun sy'n eich adnabod yn dda
- swyddog myfyrwyr anabl

Ar ôl ei gwblhau, gallwch ddiweddaru'r Cynlluniwr Addasiadau ar unrhyw adeg i adlewyrchu newidiadau yn eich gofynion neu'ch anghenion cymorth.

## Y Cynlluniwr Addasiadau

## Amdanoch chi

Enw:

Meddyliwch pa gymorth y gallech chi ei gael i'ch helpu i symud ymlaen tra byddwch yn fyfyriwr neu
i'ch cefnogi i symud i gyflogaeth. Cwestiynau y gallech fod am eu hystyried:

- A yw eich anabledd neu ofynion ychwanegol yn amrywio yn dibynnu ar y diwrnod, yr amser o'r dydd neu'r amgylchedd yr ydych ynddo?
- Os ydy/ydynt, pa mor aml mae hyn yn digwydd a pha help ychwanegol fyddai ei angen arnoch pan fydd pethau ar eu mwyaf anodd?
- A ydych chi wedi cael unrhyw gymorth ychwanegol o'r blaen, fel amser ychwanegol mewn arholiadau, neu mewn swydd flaenorol, megis hyfforddwr swydd, y gallech chi elwa ohono tra'ch bod chi'n fyfyriwr?
- A oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd a allai elwa o addasiadau?

Er enghraifft – efallai y bydd angen desg eistedd/sefyll arnoch os oes angen i chi eistedd am gyfnod hir a bodd gennych broblem gyda'ch cefn.

Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, neu os ydych wedi cael cymorth yn y gorffennol y mae arnoch ei angen o hyd, pa gymorth neu addasiadau ychwanegol sydd eu hangen arnoch?

# Y mathau o gymorth y gallai fod eu hangen arnoch

## Teithio i'r gwaith

A fyddai angen cymorth arnoch chi, neu a oes angen cymorth arnoch chi, i gyrraedd y gwaith?

Gallai hyn gynnwys:

- Tacsi
- Newidiadau i gerbyd
- Cyfaill teithio
- Arall, ychwanegwch

Os ydych, pa gymorth byddai ei angen arnoch chi?

Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o swydd yr ydych yn gwneud cais amdani a'r lleoliad. Gall eich helpu i feddwl am y mathau o rolau a lleoliadau a fyddai'n fwyaf addas i chi.

## Mynediad i addysg neu adeiladau gwaith

A oes gennych chi ofynion penodol ar gyfer y safle ffisegol neu'r amgylchedd yn eich man astudio / gweithle?

Gall y rhain fod yn addasiadau unigol i chi, neu efallai eu bod yn rhywbeth y mae eich man astudio neu gyflogwr eisoes yn ei ddarparu i bawb.

Gallai hyn gynnwys:

- Parcio hygyrch
- Toiledau hygyrch
- Ramp neu lifft
- Drysau llydan neu awtomatig
- Ardal dawel i fod eich prif fan gweithio
- Desg wedi'i neilltuo'n barhaol mewn amgylchedd desg boeth
- Addasiadau i oleuadau, e.e. i osgoi llacharedd, goleuadau is, neu oleuadau clir er mwyn eich galluogi i ddarllen gwefusau, er enghraifft.

Os oes, rhowch fanylion.

## Cymorth cyfathrebu mewn addysg neu yn y gwaith

A oes angen cymorth neu addasiadau arnoch i siarad neu gyfarfod â phobl neu ar gyfer darllen, ysgrifennu, deall ac amsugno gwybodaeth neu ddilyn cyfarwyddiadau? Gallai addasiadau sy’n ymwneud â chyfathrebu gynnwys:

- Amser prosesu ychwanegol, e.e. mewn cyfweliad neu brawf wedi'i amseru
- Anogaeth i ddarparu mwy neu lai o wybodaeth
- Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain
- Cymorth gwasanaeth cyfnewid fideo Iaith Arwyddion Prydain neu siaradwyr gwefusau
- Cymerwr cofnodion
- Gwybodaeth mewn fformat gwahanol, e.e. sain, Braille, hawdd ei ddeall, print bras neu ar bapur lliw gwahanol

## Rhaglenni TG arbenigol

Ydych chi wedi defnyddio unrhyw raglenni TG arbenigol o'r blaen? Os ydych, pa rai y gwnaethoch chi eu defnyddio?

Gallai hyn gynnwys meddalwedd fel llais i destun neu destun i lais, meddalwedd chwyddo, neu wirwyr sillafu neu ramadeg fel y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

Jaws
Dragon
Zoom Text
Texthelp, Read & Write

A oes angen hyfforddiant arnoch i ddefnyddio'r cyfarpar/meddalwedd arbenigol?

Os nad ydych wedi defnyddio unrhyw raglenni TG arbenigol o’r blaen, a hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael a sut y gallai hyn eich cefnogi?

Os ydych, cysylltwch â Mynediad i Waith am gyngor – ewch i gov.uk/access-to-work neu ffoniwch 0800 121 7479.

## Cyfarpar arbenigol ac ymdopi yn y gwaith

Ydych chi wedi defnyddio unrhyw cyfarpar arbenigol o'r blaen a oedd yn ddefnyddiol i chi? Os do, beth oedd hwn?

Gallai hyn gynnwys offer fel:

- Caledwedd gyfrifiadurol arbenigol fel llygod, bysellfyrddau, padiau rhif neu fonitorau mawr,
- Dodrefn arbenigol fel desgiau y gellir amrywio eu huchder, cadeiriau ergonomig, stoliau troed, a breichiau cadair
- Chwyddwydrau, darllenwyr Braille neu gymhorthion clyw, a chadeiriau olwyn
- Darllenydd Braille
- Clustffonau dileu sŵn

Os nad ydych wedi defnyddio unrhyw offer arbenigol o'r blaen, a hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael a sut y gallai hyn eich cefnogi?

Os ydych, cysylltwch â Mynediad i Waith am gyngor – ewch i gov.uk/access-to-work neu ffoniwch 0800 121 7479.

## Addasiadau i gyfarpar sydd gennych eisoes

Oes gennych chi gyfarpar arbenigol neu addasiadau ar hyn o bryd ac yn meddwl bod hyn yn eich helpu neu fod angen eu haddasu?

Os oes, rhowch fanylion.

Gallai hyn gynnwys:

- Rheoli sensitifrwydd synhwyraidd
- Goleuadau newidadwy
- Mannau tawel

## Cymorth tra byddwch yn y gwaith

Oes arnoch angen rhywun i'ch cefnogi wrth astudio neu yn y gwaith?

Os oes, pa fath o gymorth y mae'n ei ddarparu?

Gallai hyn gynnwys:

- Eich helpu chi i ddysgu a chwblhau rhannau o'r swydd
- Datblygu strategaethau ymdopi
- Cyfarwyddiadau a phrosesau

- Amser ychwanegol
- Help i ddarllen neu weithio gyda chydweithwyr

## Sefydliadau cefnogi

Efallai eich bod eisoes wedi cael cymorth gan elusen neu sefydliad, ac efallai eu bod eisoes wedi rhoi cyngor neu wedi nodi'r math o gyfarpar neu gymorth a allai eich cefnogi yn y gweithle.

Rhowch fanylion isod:

Argymhellion cymorth yn y gweithle

Cymhorthion a chyfarpar arbenigol

| Cymorth | Cyflenwr | Cost (gan gynnwys |
|---|---|---|
| | | £ |
| | | £ |
| | | £ |
| | | £ |
| | | £ |

## Gwneud cais am gymorth

Os oes angen cymorth arnoch wrth astudio, siaradwch â'r tîm cymorth i fyfyrwyr, a all roi cyngor i chi am y cymorth y gallant ei ddarparu neu roi cyngor ar sut y gallwch wneud cais am y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

## Lwfans i Fyfyrwyr Anabl

Y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yw cymorth i dalu'r costau sydd gennych sy'n gysylltiedig ag astudio oherwydd problem iechyd meddwl, salwch hirdymor neu unrhyw anabledd arall.

Lloegr: https://www.gov.uk/disabled-students-allowance-dsa
Yr Alban: https://www.saas.gov.uk/guides/dsa
Cymru: https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/myfyriwr-cymreig/beth-sydd-ar-gael/lwfans-myfyrwyr-anabl/

# Mynediad i Waith

## Cymorth cyfathrebu mewn cyfweliad swydd

Ydych chi wedi bod yn llwyddiannus yn cael cyfweliad swydd ac angen help i gyfathrebu?

Os ydych, gallwch wneud cais i Fynediad i Waith drwy fynd i https://www.gov.uk/guidance/apply-for-communication-support-at-a-job-interview-if-you-have-a-disability-or-health-condition-access-to-work.cy

Os oes angen cymorth arnoch i gael swydd ran-amser neu symud i gyflogaeth, gallwch gysylltu â Mynediad i Waith am gyngor neu wneud cais am gymorth.

(Cofiwch y gall swydd neu waith gynnwys hunangyflogaeth, prentisiaeth, profiad gwaith neu interniaeth â chymorth.)

Gallwch wneud cais am Fynediad i Waith yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Ar-lein: www.gov.uk/access-to-work/apply
- Ffôn: 0800 121 7479
- Ffôn testun: 0800 121 7579

Sylwer: Gall rhywun eich cefnogi gyda'ch cais.

# Cofnod o'ch ceisiadau Mynediad i Waith

Dyddiad cyflwyno'r cais:

Dyddiad cwblhau'r cais:

Oedd eich cais yn llwyddiannus?

Sylwer: Nid yw'r Cynlluniwr Addasiadau yn gwarantu dyfarniad Mynediad i Waith. Mae gwybodaeth ychwanegol am Fynediad i Waith ar gael yn:

Taflen ffeithiau Mynediad i Waith: www.gov.uk/government/publications/access-to-work-factsheet/access-to-work-factsheet-for-customers

**Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth bersonol, y dylid ei storio yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.**

# Gwybodaeth ddefnyddiol

## Beth yw addasiad yn y gweithle?

Mae addasiadau yn y gweithle yn aml yn newidiadau syml sy'n gwaredu rhwystrau i bobl anabl ac yn eu galluogi i ffynnu yn y gwaith. Gall addasiadau gynnwys addasiadau i “gyfarpar” neu dechnoleg, fel meddalwedd gynorthwyol neu gyfarpar ergonomig, addasiadau “meddal” fel patrymau gwaith gwahanol neu le tawel i eistedd mewn swyddfa, ac addasiadau “dynol” fel gweithiwr cymorth neu ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain. Gelwir addasiadau yn y gweithle yn “addasiadau rhesymol” o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod gan gyflogwr ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol os yw’n gwybod bod eu hangen ar weithiwr anabl neu os oes “disgwyliad rhesymol” y byddai’n gwybod hynny.

Mae’r gair “rhesymol” yn bwysig ac mae profion cyfreithiol i benderfynu a yw addasiad yn rhesymol ai peidio. Nid yw pob addasiad yn rhesymol ar gyfer pob swydd neu ym mhob gweithle neu broffesiwn, ond mae llawer ohonynt yn rhesymol.

**Nodyn defnyddiol** – Wrth wneud cais am waith, dylid gofyn i chi a oes angen unrhyw addasiadau arnoch ar bob cam o'r broses recriwtio. Ni chaniateir i gyflogwyr ofyn i chi am anabledd neu gyflyrau iechyd yn ystod proses recriwtio neu gyfweld felly siaradwch yn unig am yr addasiadau sydd eu hangen arnoch, nid eich anabledd.

## Rhestr y Swyddfa Ystadegau Gwladol o alwedigaethau safonol:

Math o gyflogaeth (gellir gweld rhestr o alwedigaethau yn:

[www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/standardoccupationalclassificationsoc/standardoccupationalclassificationsocextensionproject](www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/standardoccupationalclassificationsoc/standardoccupationalclassificationsocextensionproject)

Rhestrir y galwedigaethau o dan naw pennawd grŵp:

1. Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion
2. Galwedigaethau proffesiynol
3. Galwedigaethau proffesiynol cysylltiol
4. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol
5. Galwedigaethau crefftau medrus
6. Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill
7. Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid
8. Gweithredwyr prosesau, cyfarpar a pheiriannau
9. Galwedigaethau elfennol

## Categorïau amhariadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Anabledd a chyflogaeth – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Cysylltiadau defnyddiol ar gyfer addasiadau rhesymol -

- Mewn cyflogaeth: Addasiadau yn y gweithle | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (equalityhumanrights.com)
- Beth yw addasiadau rhesymol: Addasiadau rhesymol – Acas